

# CCH

Cyddffererasiwn  
Tai Cydweithredol  
Confederation of  
Co-operative Housing

## **1,001 o gartrefi cydweithredol a chartrefi a arweinir gan y gymuned: mae'r chwyldro tai yn dechrau yma**

Lluniwyd gan  
Nic Bliss

# 1,001 o gartrefi cydweithredol a chartrefi a arweinir gan y gymuned: mae'r chwyldro tai yn dechrau yma

## Mae chwyldro'n digwydd o dan ein trwynau. Ledled y wlad, mae pobl a chymunedau yn llunio eu datrysiadau eu hunain o ran tai a chymdogaethau, yn codi cartrefi cynaliadwy sy'n para, yn adeiladu cymunedau lleol gwydn a hyderus, ac yn meithrin sgiliau nad oeddent yn gwybod eu bod yn meddu arnynt.

**Mae 1,001 o gartrefi cydweithredol a chartrefi a arweinir gan y gymuned: mae'r chwyldro tai yn dechrau yma** yn gyfeiriadur o gynlluniau tai cydweithredol a thai a arweinir gan y gymuned diweddar yng Nghymru a Lloegr. Mae'n rhestr drawiadol ac amrywiol iawn. Yr hyn y mae'n ei ddangos i ni yw bod mwy yn digwydd na'r hyn yr oeddem yn ei feddwl. Rydym wedi cynnwys rhyw 1,001 o gartrefi newydd yn y cyfeiriadur hwn (a dweud y gwir, mae'n fwy nag 1,001, ond mae'r teitl hwn yn un bachog). Mae mwy na'r rheini sydd wedi cael sylw yma. Ac mae llawer mwy wedi bodoli ers yr 1970au a'r 1980au. Mae'n rhan gyfoethog a llwyddiannus o sector tai y DU ers amser maith.

**Ond nid yw hynny'n ddigon.** Mae angen pob ffordd bosibl arnom i godi cartrefi newydd. Mae hynny'n cynnwys defnyddio gweledigaeth a dychymyg pobl i lunio eu datrysiadau tai eu hunain. Yn Berlin, mae 5,000 o gartrefi - 15% o'i darpariaeth tai newydd

- bellach yn cael eu hadeiladu bob blwyddyn gan baugruppen - mudiad tai cymunedol yr Almaen - dan arweiniad cymunedau lleol sy'n dylanwadu ar eu cartrefi a'u tynged eu hunain gyda chymorth gan gynghorau lleol cefnogol.

**Mae'r fath ddatblygiad yn amhosibl ar y raddfa hon yn y DU.** Mae amrywiaeth yr hyn sy'n cael ei ddatblygu yn dangos y ffordd i ni. Yr hyn sy'n wych am dai cydweithredol a thai a arweinir gan y gymuned yw'r ffaith mai'r hyn sydd wrth wraidd y cyfan yw pobl leol yn penderfynu ar yr hyn y maent eisiau ei wneud ac yn gwneud i hynny ddigwydd yn eu ffordd nhw. Efallai fod y bobl hynny'n defnyddio'r hyn a wnaeth eraill eisoes yn sail, neu efallai eu bod yn dyfeisio ymagwedd hollol newydd. Yr hyn sy'n glir o'r cyfeiriadur hwn yw nad oes yr un datblygiad sydd yr un peth ag un arall!

Mae manylion ynghylch sut y cafodd cynlluniau eu datblygu - o ble y cawsant eu cyllid, gyda phwy y buont

yn gweithio, pwy sy'n byw ynddynt a sut y maent yn byw i gyd yn bwysig. Mae rhai ohonynt i bobl eu rhentu, rhai i'w prydlesu, eraill ar werth a rhai yn gyfuniad o'r naill beth a'r llall. Cafodd rhai eu cychwyn gan gymunedau ar lawr gwlad - cafodd eraill eu cychwyn gan Gynghorau lleol, cymdeithasau tai neu eraill. Roedd y rhan fwyaf yn cynnwys partneriaethau - doedd eraill ddim. Cafodd rhai eu datblygu gan bobl yr oedd yn fwriad ganddynt fyw yn y cartrefi; cafodd eraill eu datblygu gan gymunedau fel bod modd i bobl fyw yn eu cymunedau. Mae rhai yn drefol - mae rhai yn wledig. Roedd rhai wedi cael cyllid grant - doedd eraill ddim.

Ond mae'r manylion hyn yn ddibwys o gymharu â'r gwaddol parhaus o gymuned a roddodd fod i godi'r cartrefi hyn. Darparu a rheoli cartrefi yw'r sylfaen i ffurfio cymunedau lleol neu eu datblygu ymhellach.

## Cymunedau lle mae pobl yn cefnogi ei gilydd, yn gwneud pethau ar y cyd, ac yn cynyddu hyder cymunedol, gan greu cymunedau a fydd yn trysori ac yn gwarchod cenedlaethau'r dyfodol.

### Dyma yw'r chwyldro tai. Ewch amdani!



“Rydym wedi bod yn cefnogi ac yn datblygu tai cydweithredol ers yr 1990au, ac mae’n syndod nad yw cymdeithasau tai eraill yn gwneud hynny hefyd. I ni, mae’n benderfyniad hawdd – mae gennym gynlluniau tai sy’n cael eu cynnal yn dda iawn, y mae’r cymunedau’n eu trysori, ac y mae ein staff yn gwerthfawrogi’r cyfle i weithio gyda nhw. Ond – yn bwysicach byth – mae’n gyffrous gweld twf y bobl a’r cymunedau yn y tai cydweithredol a’r modd y maent yn darparu ansawdd bywyd mor uchel i’w haelodau.”

**Dr Chris Handy OBE – Prif Weithredwr, Grŵp Tai Accord**

Trwy ei is-gwmni, Gwasanaethau Tai Cydweithredol Birmingham, mae Grŵp Tai Accord wed bod yn cefnogi tai cydweithredol yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr ers yr 1990au. Yn y 90au, trwy weithio gyda Chyngor Bwrdeistref Redditch, sefydlwyd Tai Cydweithredol Redditch gan Accord er mwyn datblygu tai cydweithredol yn y fwrdeistref.

**Ymhlith yr astudiaethau achos y mae Accord yn eu cefnogi y mae:**

- Tai Cydweithredol Beaconview
- Tai Cydweithredol Myfyrwr Birmingham
- Innovation Way TMO
- Datblygiad Marlfield – rhan o Dai Cydweithredol Riverside



“Mae Tai Cydweithredol Glannau Mersi wedi dangos am 40 mlynedd a mwy fod tai cydweithredol ymysg y mathau gorau o ddarpariaeth dai. Mae wedi bod yn fraint gweithio gyda nhw, ac mae’n arbennig iawn ein bod yn rhoi cymorth iddynt ddatblygu cartrefi newydd yn ogystal â helpu rhai cymunedol newydd i ymwreiddio. Mae’n gyffrous gweld y genhedlaeth newydd o dai cydweithredol yn dechrau arni. Mae’n dangos i ni bod cymaint yn bosibl.”

**Syed Maqsood – Prif Weithredwr, Gwasanaethau Tai Gogledd-orllewin Lloegr**

Mae Gwasanaethau Tai Gogledd-orllewin Lloegr yn sefydliad cydfuddiannol a gychwynwyd yn 2006 gan 38 o gwmnïau tai cydweithredol annibynnol. Cawsant eu sefydlu i roi cymorth i gwmnïau tai cydweithredol a oedd yn gleientiaid ar draws Glannau Mersi, ond yn fwy diweddar maent yn darparu ystod o wasanaethau i gwmnïau cydweithredol, landlordiaid bach, mentrau cymdeithasol a lesddeiliaid dros ardal llawer ehangach, ledled Gogledd-orllewin Lloegr.

**Ymhlith yr astudiaethau achos y mae Gwasanaethau Tai Gogledd-orllewin Lloegr yn eu cefnogi y mae:**

- Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Granby 4 Streets
- Tai Cydweithredol Cymunedol Langrove
- Tai Cydweithredol Princes Park

“Mae tai cydweithredol yn ffynnu yng Nghymru. Diolch i gymorth gwleidyddol ac ariannol gan Lywodraeth Cymru, mae tai cydweithredol wedi tyfu o ddim byd i fod yn fudiad cynyddol sy’n gosod seiliau ym mhob cwr o Gymru. Rwy’n falch bod Canolfan Cydweithredol Cymru, mewn partneriaeth â Thai Cymunedol Caerdydd, wedi gallu arwain y gwaith o gyflawni’r rhaglen hon. Rwyf hyd yn oed yn fwy balch o weld pobl leol, cynghorau a chymdeithasau tai yn ymateb mor gadarnhaol ac yn gwneud i bethau ddigwydd yn eu cymunedau. Mae’n rhaglen gyffrous iawn i fod yn rhan ohoni, a hir oes i hynny.”

**Derek Walker – Prif Weithredwr, Canolfan Cydweithredol Cymru**

Gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad penodol i ddatblygu tai cydweithredol yng Nghymru. Mae Tai Cymunedol Caerdydd wedi gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru i ddatblygu’r ymrwymiad hwn, ac mae rhyw 25 o gynlluniau tai cydweithredol wrthi’n cael eu cwblhau ar hyn o bryd.

**Ymhlith yr astudiaethau achos y mae Llywodraeth Cymru yn eu cefnogi y mae:**

- Tai Cydweithredol Home Farm Village
- Cymdeithas Loftus Village
- Tai Cydweithredol Old Oak
- Tai Cydweithredol Taf Fechan
- Tai Cydweithredol Gorllewin y Rhyll

“Rwyf wed bod yn aelod o’r cwmni tai cydweithredol ers yr 1990au. Nid cartref yn unig a gewch chi fan hyn – fe gewch chi gymuned. Rydym yn cynnal ein gilydd. Ond yn fwy na hynny – mae’n gymuned fusnes gref. Mae’n wych gweld yr holl enghreifftiau hyn lle mae pobl yn gwneud i bethau ddigwydd drostyn nhw eu hunain. Mae’n amlwg erbyn hyn mai fel hyn y dylai tai fod. Dylai pawb gael y cyfleoedd a gawsom ni.”

**Paula Farrow – Cadeirydd Tai Cydweithredol Minster (Caint) a Chadeirydd Tai Cymunedol Caerdydd**

Sefydliad	Cartrefi newydd	Partner(iaid)	Math o dai
Ashley Vale	26		Hunanadeiladu yn eiddo i berchen-feddianwyr
Tai Gydweithredol Beaconview	38	Grŵp Tai Accord	Cyd-berchenogaeth a fforddiadwy i'w rhentu
Tai Cydweithredol Cymdogaeth Belgrave	21	Grŵp Tai ASRA	Fforddiadwy i'w rhentu
Tai Cydweithredol Myfyrwyr Birmingham	8	Grŵp Tai Accord	Fforddiadwy i'w rhentu
The Bushbury Arms	38	Bwrdd Rheoli Ystad Bushbury Hill; Ymddiriedolaeth Tai Wrekin	Fforddiadwy i'w rhentu
Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Cernyw	c.200	Cyngor Cernyw	Cyd-berchenogaeth a fforddiadwy i'w rhentu
Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Granby 4 Streets	10	Gwasanaethau Tai Gogledd-orllewin Lloegr; Cymdeithas Tai Steve Biko	Cartrefi ar werth
Tai Cydweithredol Home Farm Village	41	Cymdeithas Tai Cadwyn	Fforddiadwy i'w rhentu
Sefydliad Rheoli Tenantiaid Innovation Way	40	Cyngor Walsall; Tai Caldmore	Fforddiadwy i'w rhentu
Cymdeithas Budd Cymunedol Kipling Garages a Leathermarket	27	Bwrdeistref Southwark yn Llundain; Leathermarket JMB	Fforddiadwy i'w rhentu
KI – Tai ar y Cyd Caergrawnt	42	Instinctively Green; Townhus; Mole Architects	Cartrefi Lesddaliad
Tai ar y Cyd Caerhirfryn	35	Eco Arc; Whittles Construction	Cartrefi Lesddaliad
Tai Cydweithredol Cymunedol Langrove	5	Gwasanaethau Tai Gogledd-orllewin Lloegr; Grŵp Tai Riverside	Fforddiadwy i'w rhentu
Lilac	20		Perchentaeth cydfuddiannol
Cymdeithas Loftus Village	19	Grŵp Seren (Pobl)	Cyd-berchenogaeth
Tai Cydweithredol MACE	18	Tai Hunangymorth	Fforddiadwy i'w rhentu
Datblygiad Marlfield (Tai Cydweithredol Riverside)	79	Cartrefi Cydweithredol Redditch; Cyngor Bwrdeistref Redditch; Grŵp Tai Accord	Cyd-berchenogaeth a fforddiadwy i'w rhentu
Tai Cydweithredol Old Oak	27	Grŵp Tai Gwalia (Pobl)	Cyd-berchenogaeth
Grŵp Overton Road	6	Cymdeithas Porth Cymunedol	Fforddiadwy i'w rhentu
Tai Cydweithredol Princes Park	15	Gwasanaethau Tai Gogledd-orllewin Lloegr	Fforddiadwy i'w rhentu
SCATA	7	Bwrdeistref Lambeth yn Llundain	Fforddiadwy i'w rhentu
Ymddiriedolaeth Somerleyton Road	304	Bwrdeistref Lambeth yn Llundain	Fforddiadwy ac wedi'u rhentu ar y farchnad; cynllun gofal ychwanegol
Tai Cydweithredol Taf Fechan	12	Cyngor Bwrdeistref Sirol Cymoedd Merthyr; Cartrefi Cymoedd Merthyr	Tai rhent canolradd
Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Toller Porcorum	6	Prosiect Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Wessex	Fforddiadwy i'w rhentu
Cymuned Tai ar y Cyd Trelay	12		Perchentaeth cydfuddiannol
Tai Cydweithredol Gorllewin y Rhyl	11	Tai Gogledd Cymru	Fforddiadwy i'w rhentu